dyma wŷs i chi i gyfarfod rhithwir o **gyd-bwyllgor trosolwg a chraffu bwrdd gwasanaethau cyhoeddus cwm taf** yn cael ei gynnal ar ar **Dydd GWENER, 26AIN CHWEFROR, 2021** AM **2.00 PM.**

Dolen gyswllt: Claire Hendy

**AGENDA**

**1. 5 SWYDDOGAETH STATUDOL GRAIDD CYDBWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CWM TAF**

Atgoffir aelodau'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu, fel y nodir yn ei gylch gorchwyl, bod eu swyddogaethau statudol craidd yn cynnwys: -

- Adolygu neu graffu ar y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan y Bwrdd neu'r camau mae'r Bwrdd yn eu cymryd;
- Adolygu neu graffu ar drefniadau llywodraethu'r Bwrdd;
- Paratoi adroddiadau neu wneud argymhellion i'r Bwrdd ynghylch ei swyddogaethau neu'i drefniadau llywodraethu;
- Ystyried materion sy'n ymwneud â'r Bwrdd fel y gall Gweinidogion Cymru gyfeirio atyn nhw, ac adrodd i Weinidogion Cymru yn unol â hynny;
- Cyflawni swyddogaethau eraill mewn perthynas â'r Bwrdd sydd wedi'u gosod arno gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**2. DATGANIAD O FUDDIANT**

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau o'r Pwyllgor yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

Nodwch:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm y mae eu buddiant yn ymwneud ag e, a mynegi natur y buddiant personol hwnnw: a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

**3. COFNODION**

Cadarnhau cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2020.

**3 - 10**

**4. CROESAWU CADEIRYDD Y BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS**

Croesawu Mr Mark Brace, Cadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a fydd yn rhannu diweddariad am gynnydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o ran ymateb, gwaith adfer a ffocws ar gyfer y dyfodol â'r Pwyllgor.

**5. AMCAN CYNLLUN LLESIANT CWM TAF - ECONOMI GREF**

Rhannu trosolwg o'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn unol ag Amcan 'Economi Gref' Cynllun Llesiant Cwm Taf mewn perthynas â 'chyflogaeth a sgiliau' a 'chaffael' (diweddariad ar lafar a chyflwyniad Powerpoint) â'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu.

Bydd aelodau'n cael cyfle i fonitro cynnydd yn y maes yma a nodi unrhyw wybodaeth bellach y mae'r Pwyllgor yn dymuno'i thrafod wrth gefnogi'r broses o gyflawni'r Cynllun Llesiant.

**6. ADOLYGIAD Y CADEIRYDD A DOD Â'R CYFARFOD I BEN**

Adlewyrchu ar y cyfarfod a'r camau gweithredu i'w dwyn ymlaen.

**7. UNRHYW FATERION ERAILL**

Trafod unrhyw faterion eraill y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.

**<u>Cylchrediad:-</u>**

**Yn cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful**
Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol: T. Skinner, K. Gibbs, J. Davies, D. Issac and D. Sammon.

**Yn cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**
Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol: J. Bonetto, G. Caple, W. Jones, A.Cox, A.Fox

**Aelodau cyfetholedig:**
Mr M. Jehu OBE – Bwrdd Iechyd Lleol
Mr J. Jenkins – Cyngor Iechyd Cymuned
Ms M. Lewis – Cynrychiolydd Dinasyddion RhCT
Mr M. J. Maguire – Cynrychiolydd Dinasyddion Merthyr Tudful